OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 414 (Cy.50)

TRWYDDEDU (MOROL), CYMRU
RHEOLI MOROL, CYMRU

Gorchymyn Trwyddedu Morol (Dirprwyo Swyddogaethau) (Cymru) 2013

Gwnaed - - - -	*26 Chwefror 2013*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*26 Chwefror 2013*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, fel yr awdurdod trwyddedu priodol o dan adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 98(1) a 316(1)(b) o'r Ddeddf honno, a chan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 mewn perthynas ag atal, lleihau a rheoli gwastraff(3).

Yn unol ag adran 98(**3**) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, mae Corff Adnoddau Naturiol Cymru yn caniatáu i'r Gorchymyn hwn gael ei wneud.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Trwyddedu Morol (Dirprwyo Swyddogaethau) (Cymru) 2013.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2013.

Cymhwyso

2.—(1) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran unrhyw weithgaredd morol trwyddedadwy a Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu priodol ar ei gyfer o dan adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(**4**) ac mae cyfeiriadau yn y Gorchymyn hwn at "yr awdurdod trwyddedu" i'w darllen yn unol â hynny.

(**1**) 2009 p.23.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) Erthygl 3 o Orchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 2) 2010 (O.S. 2010/1552).
(**4**) Yn rhinwedd adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu priodol mewn cysylltiad ag unrhyw beth a wneir wrth gyflawni gweithgareddau morol trwyddedadwy o ran Cymru a rhanbarth

(2) Nid oes dim yn y Gorchymyn hwn yn gymwys o ran unrhyw swyddogaeth sydd wedi ei heithrio o fewn ystyr adran 98(6) o'r Ddeddf honno.

Dynodi

3.—(1) Mae'r swyddogaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) wedi eu dynodi at ddibenion adran 98(1)(a) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

(2) Y swyddogaethau yw unrhyw swyddogaeth yr awdurdod trwyddedu o dan—

(a) Rhan 4 o'r Ddeddf honno (adrannau 65 i 115 ac Atodlenni 7 i 9);

(b) Rheoliadau Trwyddedu Morol (Ffioedd am Geisiadau) (Cymru) 2011(**5**);

(c) Rheoliadau Trwyddedu Morol (Cofrestr o Wybodaeth Trwyddedu) (Cymru) 2011(**6**);

(d) Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011(**7**), ac eithrio unrhyw swyddogaeth yr awdurdod trwyddedu o dan erthygl 5;

(e) Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apelau yn Erbyn Penderfyniadau Trwyddedu) (Cymru) 2011(**8**), fel y'u diwygiwyd gan erthygl 6 o'r Gorchymyn hwn.

Dirprwyo i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru

4. Mae'r swyddogaethau sydd wedi eu dynodi gan erthygl 3, yn hytrach na bod yn arferadwy gan yr awdurdod trwyddedu, neu mewn perthynas ag ef, yn arferadwy gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru, neu mewn perthynas ag ef, sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod trwyddedu.

Diwygio Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011

5.—(1) Mae erthygl 5 o Orchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraffau (4) a (5), yn lle "awdurdod trwyddedu" rhodder "Corff Adnoddau Naturiol Cymru".

Diwygiad canlyniadol i Reoliadau Trwyddedu Morol (Apelau yn Erbyn Penderfyniadau Trwyddedu) (Cymru) 2011

6.—(1) Mae rheoliad 6 o Reoliadau Trwyddedu Morol (Apelau yn Erbyn Penderfyniadau Trwyddedu) (Cymru) 2011 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Daw'r rheoliad hwnnw'n baragraff (1) yn y rheoliad hwnnw.

(3) Ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(2) Rhaid i berson sy'n anfon hysbysiad apêl at Weinidogion Cymru anfon, ar yr un adeg, gopi o'r hysbysiad hwnnw at yr Awdurdod Trwyddedu."

Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion

7.—(1) Yn yr erthygl hon—

(a) ystyr "y dyddiad effeithiol" yw 1 Ebrill 2013;

---

glannau Cymru ac eithrio gweithgareddau pan yr Ysgrifennydd Gwladol yw'r awdurdod trwyddedu priodol ar eu cyfer o dan adran 113(4)(a) a (5) o'r Ddeddf honno. *Gweler* adran 322(1) i gael y diffiniad o "Welsh inshore region".

(**5**) O.S. 2011/555 (Cy.78).

(**6**) O.S. 2011/557 (Cy.79).

(**7**) O.S. 2011/559 (Cy.81).

(**8**) O.S. 2011/925 (Cy.134). Mae rhai swyddogaethau penodol sy'n ymwneud ag apelau o dan reoliadau 4(1), 5(1), (4) a (5), 6, 8(8) a 18(4) yn swyddogaethau Gweinidogion Cymru, yn hytrach na'r awdurdod trwyddedu ac, yn unol â hynny, maent y tu allan i gwmpas y dynodiad o dan y Gorchymyn hwn.